wrexham
COUNTY BOROUGH COUNCIL
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
wrecsam

CYMORTH GYDA CHOSTAU GOFAL PLANT

I RIENI SY'N GWEITHIO CANLLAW I FFYNONELLAU CYMORTH PLANT I RIENI SY'N GWEITHIO

Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Wrecsam
Wrexham Family Information Service

Cynnwys

	Tudalen
Budd-dal Plant	4
Talebau Gofal Plant	4
Yr Asiantaeth Cynnal Plant	5
Credyd Treth Plant	6
Budd-daliadau Lles Addysg	6
Lwfans Gwarcheidwaid	7
Y Fargen Newydd	8
Y Fargen Newydd ar gyfer Rhieni Unigol NDLP	8
Cymorth Gofal Plant NDLP	9
Cymhorthdal Gofal Plant NDLP	9
Grant Mamolaeth Cychwyn Cadarn	9
Lwfans Rhiant Gweddw	10
Credyd Treth Gwaith	10
Cyfnodau Di-dreth Newydd Credyd Treth Gwaith	11
Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Wrecsam	11
Prosiect Genesis Cymru Wales 2	11
Swyddog Cefnogi Ariannu Gofal Plant	11

Ffynonellau Cymorth i Rieni ar gyfer Costau Gofal Plant

Mae'r wybodaeth ganlynol yn darparu ffynonellau cymorth gyda chostau gofal plant sydd ar gael i rieni ar gyfer 2009/ 20010. Dim ond gwybodaeth sylfaenol a roddir, gan fod cymhwyso'n dibynnu ar amgylchiadau ac incwm. Felly rhaid i rieni gysylltu a'r cysylltwyr a roddwyd i gael mynediad at y cymorth ariannol hwn.

Budd-dal Plant

Budd-dal di-dreth yw hwn i bobl sy'n magu plant. Caiff ei dalu i bob plentyn ac nid yw incwm na chynilion yn effeithio arno.

Mae gennych hawl i Fudd-dal Plant os gallwch fodloni un o'r meini prawf canlynol.

Rydych yn magu plentyn:

- sydd o dan 16.
- sydd o dan 19 oed ac yn astudio'n llawn amser hyd at Safon Uwch, Tystysgrif Addysg Alwedigaethol Uwch neu gyfwerth (gellir ei dalu hyd at 20fed pen-blwydd unigolyn ifanc, os ydynt yn parhau i fod mewn "addysg lawn amser nad yw'n addysg uwch" ac os ydynt wedi bod mewn addysg cyn troi'n 19 oed.
- sydd yn 16 neu 17 mlwydd oed ac wedi gadael yr ysgol yn ddiweddar, ac wedi cofrestru ar gyfer gwaith neu hyfforddiant gyda'r Gwasanaeth Gyrfaoedd.

Nid oes rhaid i chi fod yn un o rieni'r plentyn i gael Budd-dal Plant. Efallai y cewch Fudd - dal Plant os byddwch yn talu tuag at fagu plentyn sydd heb fod yn byw gyda chi a neb arall yn hawlio'r budd-dal amdanynt.

Gallwch hawlio Budd-dal Plant o adeg geni'r plentyn neu pan ddaw i fyw gyda chi. Y taliad presennol bob wythnos yw:

- £20.30 am y plentyn hynaf sy'n cymhwyso
- £13.40 am bob plentyn arall

Gallech hawlio Budd-dal Plant ar-lein, trwy ddefnyddio'r wefan isod neu drwy alw'r llinell gymorth.
I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â: 0845 302 1444 (*llinellau ar agor 8am – 8pm*) diwrnod yr wythnos) neu ymwelwch ag: *www.hmrc.gov.uk/childbenefit*

Talebau Gofal Plant

Mae rhai cyflogwyr yn cynnig cynllun Talebau Gofal Plant i rieni sy'n gweithio. Mae'r rhain yn ddi-dreth ac wedi cael eu heithrio o Gyfraniadau Yswiriant Gwladol (CYG) i weithwyr ac maent yn cynnig cynilion Yswiriant Gwladol i gyflogwyr. Mae Talebau Gofal Plant o fudd i drethdalwyr graddfa sylfaenol ac uwch. Gellir defnyddio talebau i dalu am y mathau canlynol o ofal plant cofrestredig; meithrinfeydd dyddiol, gwarchodwyr plant, clybiau cyn ac ar ôl ysgol, nani, *au pair* a hyd yn oed glybiau gwyliau i blant oed ysgol.
Gall Talebau Gofal Plant effeithio ar eich hawl i Gredyd Treth Gwaith a Chredyd Treth Plentyn. I'ch helpu i benderfynu p'un a fyddai Credydau Treth neu Dalebau Gofal Plant yn well i chi ewch i'r ddolen ganlynol ://www.hmrc.gov.uk/childcare/interaction-tc-cv.htm

Child Maintenance

Mae cynhaliaeth plant yn fath o gymorth ariannol rheolaidd a dibynadwy sy'n cyfrannu at gostau byw dyddiol plentyn. Mae'r rhiant sy'n bennaf gyfrifol am ofalu am y plentyn o ddydd i ddydd yn talu cynhaliaeth plant i'r rhiant arall. Bellach gall pob rhiant drefnu cynhaliaeth plant naill ai fel trefniant preifat neu drwy Asiantaeth Cynnal y Plant. Bydd faint a gewch yn dibynnu ar incwm y rhiant nad yw'n byw gyda'r plentyn.

Ers Ebrill 2010 nid swm y gynhaliaeth plant y mae rhiant sydd a gofal yn ei dderbyn yn effeithio'u budd-daliadau.

Am ragor o wybodaeth ffoniwch y Llinell Ymholiadau Cyffredinol ar Ffôn: 08457 133133 neu ewch i: www.csa.gov.uk. Gwybodaeth a chefnogaeth ddiduedd i rieni a thadau a mamau cu ar gael gan Opsiynau Cynhlaliaeth Plant. Ffôn: 0800 988 0988. Neu ewch i www.emoptions.org

Credyd Treth Plant

Taliad yw hwn i gynnal teuluoedd gyda phlant. Nid oes raid ichi fod yn gweithio i hawlio.

Caiff Credyd Treth Plant ei dalu'n uniongyrchol i fanc pwy bynnag yn y teulu sy'n bennaf gyfrifol am edrych ar ôl y plentyn neu blant. Mae'n cael ei dalu yn ogystal â Budd-dâl Plant ac unrhyw Gredyd Treth Gwaith.

Gallwch hawlio Credyd Treth Plant os ydych yn gyfrifol am un plentyn neu fwy. Bydd yn rhoi cynhaliaeth ar gyfer:

Plentyn hyd at 1af Medi yn dilyn pen-blwydd y plentyn yn 16 oed, neu rhywun ifanc 16 i 18 sydd:-

1. Yn dilyn addysg lawn-amser, hyd at ac yn cynnwys Safon Uwch a CGC 3.
2. Wedi gadael addysg lawn-amser ond heb gael swydd neu leoliad hyfforddiant ac wedi cofrestru gyda'r Gwasanaeth Gyrfaoedd.
3. Heb fod yn hawlio Cynhaliaeth Incwm, *budd-daliadau tebyg* neu gredydau treth yn ei rinwedd /rhinwedd ei hun.
4. Heb fod yn bwrw cyfnod o bedwar mis neu fwy yn y carchar drwy'r llys.

Os ydych yn gymwys i gael Cymhorthdal Incwm neu Lwfans Ceisio Gwaith ar Sail Incwm bydd gennych hawl "r uchafswm o Gredyd Treth Plant ar gyfer eich plant. Gwnewch gais yn gynnar gan y byddwch yn derbyn mwy yn ystod blwyddyn gyntaf y plentyn ac ni ellir ei ôl-ddyddio mwy na chwe wythnos.

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â: Llinell Gymorth Credydau Treth Ffôn: 0845 300 3900 neu ymwelwch ag: www.direct.gov.uk/en/MoneyTaxandBenefits

Budd-daliadau Lles Addysg yn Wrecsam 2011/12

Mae Grantiau Gwisg Ysgol ar gael i rieni/gwarcheidwaid disgyblion sydd mewn ysgolion uwchradd yn Wrecsam. Byddant ar gael i ddisgyblion y mae eu rhieni neu warcheidwaid yn derbyn:

- Cymhorthdal Incwm
- Lwfans Mewnfudwyr a Cheiswyr Lloches
- Lwfans Ceisio Gwaith ar sail Incwm

- Credyd Treth Plant gydag incwm islaw'r terfyn penodedig o £16,190 ond heb fod yn derbyn **Credyd Treth Gwaith** (*mae'r ffigwr hwn wedi aros yr un fath er gwaethaf y newidiadau i'r trothwyon Credyd Treth).
- Credyd Pensiwn
- Lwfans Cymorth Cyflogaeth yn seiliedig ar Incwm (ESA)

Hefyd mae grant ychwanegol o £105 ar gael dros ddisgyblion Blwyddyn 7 gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i rieni neu warcheidwaid sy'n derbyn unrhyw rai o'r uchod ac eithrio Credyd Pensiwn.

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch ag: Adran Cynnal Myfyrwyr, 16 Stryt yr Arglwydd, Sgwâr y Frenhines, Wrecsam LL11 1LG, Ffôn: 01978 297406. Fel arall, mae ffurflenni cais i'w cael o Ysgolion Uwchradd (neu Ysgolion Cynradd o ran disgyblion Blwyddyn 6).

Mae Cinio Ysgol Am Ddim ar gael ar ffurf talebau i rieni neu warcheidwaid disgyblion sydd mewn ysgol yn llawn amser yn Wrecsam. Byddant ar gael i ddisgyblion y mae eu rhieni/gwarchodwyr yn derbyn:

- Cynhaliaeth Incwm
- Lwfans Mewnfudwyr a Cheiswyr Lloches
- Lwfans Ceisio Gwaith ar sail Incwm
- Credyd Treth Plant gydag incwm islaw'r terfyn penodedig o £16,190 ond heb fod yn derbyn Credyd Treth Gwaith (*mae'r ffigwr hwn wedi aros yr un fath er gwaethaf y newidiadau i'r trothwyon Credyd Treth).
- Credyd Pensiwn
- Lwfans Cymorth Cyflogaeth sy'n seiliedig ar Incwm (ESA)

Am wybodaeth ar y ddau grant cysylltwch ag: Isadran Cymorth i Fyfyrwyr, 16 Stryt yr Arglwydd, Wrecsam LL11 1LG. Ffôn: 01978 297406. Fel arall, mae ffurflenni cais ar gael o ysgolion uwchradd (neu ysgolion cynradd ar gyfer disgyblion blwyddyn 6), neu gallwch lawrlwytho ffurflen o http://www.wrexham.gov.uk/english/education

Cludiant Ysgol

Mewn amgylchiadau neilltuol, mae'r AALI yn cynnig cymorth gyda chludiant ysgol. Os ydych un dymuno cael gwybodaeth bellach ffoniwch 01978 292056 neu ymwelwch ag www.wrexham.gov.uk/english/education_w/Transport_PolicyW.htm ac ewch i'r adran cludiant ysgol.

Lwfans Gwarcheidwaid

Lwfans yw hwn i bobl sy'n magu plentyn oherwydd bod un rhiant neu'r ddau wedi marw (mae'n rhaid i un o'r rhieni fod wedi eu geni yn y DU). . Rhaid i chi fod yn derbyn Budd-dal Plant ar gyfer y plentyn.

I fod â hawl i wneud cais rhaid i chi fod yn magu plentyn lle bu'r ddau riant farw neu, lle bu un rhiant farw a:

- bod y rhieni wedi ysgaru (mae rhai amodau'n berthnasol)
- nad oes modd cael hyd i'r rhiant arall neu fod ef neu hi yn y carchar gydag o leiaf 2 flynedd o'r ddedfryd ar ôl, neu mewn ysbyty'r meddwl trwy orchymyn llys (mae rhai amodau'n berthnasol).

Nid oes rhaid ichi fod yn warcheidwad cyfreithiol y plentyn i gael Lwfans Gwarcheidwad.

Efallai y gallwch gael Lwfans Gwarcheidwad os na fu rhieni'r plentyn erioed yn briod.

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch âg: Uned Lwfans Gwarcheidwad, Ffôn: 0845 302 1464, neu ymweld â: www.hmrc.gov.uk

Y Fargen Newydd

Un o raglenni'r llywodraeth yw'r Fargen Newydd sy'n anelu at roi'r cymorth a chefnogaeth sydd ar bobl ddi-waith ei angen i gael gwaith. Mae'n ceisio chwalu holl rwystrau i gyflogaeth, sy'n gallu cynnwys cynorthwyo gyda chostau gofal plant.

Mae pawb ar y Fargen Newydd yn cael ymgynghorydd personol sy'n fan cyswllt iddynt drwy gydol y rhaglen. Mae'r ymgynghorydd personol yn rhoi'r amser i'ch deall chi – eich profiadau, diddordebau a'ch amcanion, fel modd paratoi cynllun i gael swydd addas i chi.

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â: Jobcentre Plus, Ffon: 0845 6043719 www.direct.gov.uk

Y Fargen Newydd ar gyfer Rhieni Unigol (NDLP)

Gwasanaeth i gynorthwyo Rhieni Unigol (NDLP) i ddod o hyd i swydd neu hyfforddiant addas i ddiweddaru eu sgiliau yw'r Fargen Newydd ar gyfer Rhieni Unigol (NDLP). Mae ar gael i bob rhiant unigol sy'n ddi-waith, neu sy'n gweithio llai nag 16 awr yr wythnos, gyda phlentyn ieuengaf dan 16 mlwydd oed.

Os cymrwch chi ran yn NDLP bydd cynghorydd personol yn eich helpu drwy'r camau o ddod o hyd i swyddi addas ac i ymgeisio amdanynt a'ch cynorthwyo gyda threuliau i fynychu cyfarfodydd, cyfweliadau am swyddi neu hyfforddiant y maent yn ei drefnu ar eich cyfer, gan gynnwys pris tocynnau a chostau gofal plant cofrestredig.

Fel rhan o Gredyd Treth Gwaith, gallwch fod â hawl i gymorth ychwanegol tuag at gostau gofal plant cofrestredig neu gymeradwy. Os ydych wedi bod yn hawlio Cymhorthdal Incwm neu Lwfans Ceisio Gwaith gallwch fod â hawl hefyd i Fonws Dychwelyd i'r Gwaith a Bonws Cynhaliaeth Plant. Bydd eich ymgynghorydd personol yn eich helpu i wneud cais am unrhyw fudd-daliadau mewn gwaith neu gredydau treth y bydd gennych hawl iddynt.

Ni fydd cymryd rhan yn NDLP yn peri colli budd-dal.

Cymorth Gofal Plant NDLP

Mae Canolfan Byd Gwaith wedi sefydlu cronfa fydd ar gael i holl Rieni Unigol sy'n cyfranogi yn y Fargen Newydd. Mae hyn yn caniatáu talu am ofal plant ffurfiol yn ystod yr wythnos cyn i'r rhiant unigol ddechrau gweithio. Bwriad hyn yw:

1. Rhoi sicrwydd y byddai eu plentyn neu blant yn setlo mewn gofal plant ffurfiol gyda'r darparwr a ddewiswyd;
2. Cynorthwyo rhieni unigol i ymgymryd â gweithgareddau sydd eu hangen wrth baratoi i ddechrau gweithio;
3. Annog rhieni i ddefnyddio gofal plant ffurfiol cofrestredig.

Bydd taliadau'n cael eu gwneud yn uniongyrchol i'r Darparwr Gofal Plant fydd yn anfonebu Canolfan Byd Gwaith. Rhaid gwneud ceisiadau am Gymorth Gofal Plant cyn cytuno ar y gofal plant gyda'r darparwr.

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â: Ymgynghorwr y Fargen Newydd, Canolfan Byd Gwaith, 15-17 Ffordd Grosvenor, Wrecsam, LL11 1BW. Ffôn: 0845 6043719

Cymhorthdal Gofal Plant NDLP

Mae hwn ar gael i rai cyfranogwyr y Fargen Newydd sy'n Rhieni Unigol ac sy'n symud i waith rhan-amser o lai nag 16 awr yr wythnos. Nid yw ar gael i rieni unigol sydd eisoes yn gweithio. Fe all cymorth fod ar gael tuag at gost gofal plant, tra bo rhieni unigol yn gweithio. Rhaid i gynghorydd Canolfan Waith gymeradwyo'r cymhorthdal gofal plant cyn i'r swydd ddechrau. O'i gymeradwyo, mae'r cymhorthdal gofal plant yn daladwy am gyfnod hwyaf o 52 wythnos o'r dyddiad cyntaf y dechreuodd y rhiant unigol waith rhan-amser, a chaiff ei dalu'n uniongyrchol i'r darparwr gofal plant.

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â: Canolfan Byd Gwaith neu ewch i: www.newdeal.gov.uk

Grant Mamolaeth Cychwyn Cadarn

Mae grant o £500 ar gael i helpu i roi dechrau cadarnhaol mewn bywyd i'ch baban. Daw'r grant o'r Gronfa Gymdeithasol ac ni fyddwch yn gorfod ei roi yn ôl. Gallwch fod yn gymwys i dderbyn y grant hwn heb ystyried unrhyw gynilion sydd gennych, os byddwch chi neu eich partner yn hawlio:

- Cymhorthdal Incwm;
- Lwfans Ceisio Gwaith ar sail incwm;
- Credyd Pensiwn;
- Credyd Treth Gwaith lle bo elfen anabledd neu anabledd difrifol yn y dyfarniad; neu
- Credyd Treth Plant sy'n cynnwys swm uwch na'r elfen deulu.

Rhaid hawlio'r grant o 11 wythnos cyn diwrnod cyntaf yr wythnos yr ydych yn disgwyl rhoi genedigaeth tan bod eich plentyn yn dri mis oed.

O fis Ebrill 2011, bydd y grant hwn ar gael ar gyfer plentyn (neu blant) cyntaf yr aelwyd yn unig. Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â: 0845 6043719

Rhaid hawlio'r grant cyn bod eich plentyn yn dri mis oed.

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â Jobcentre Plus: 0845 6043719

Lwfans Rhiant Gweddw

Os ydych chi'n rhiant sydd wedi colli ei gŵr, gwraig neu bartner sifil a bod gennych blentyn neu berson ifanc (16 oed neu o dan 20) sy'n dibynnu arnoch a'ch bod yn cael Budd-dal Plant ar eu cyfer mae'n bosibl y gallwch chi hawlio'r Lwfans Rhiant Gweddw.

Mae'n bosibl y gallwch hawlio Lwfans Rhiant Gweddw hefyd: os ydych yn disgwyl babi eich diweddar ŵr neu babi eich diweddar bartner sifil (a chithau'n feichiog oherwydd triniaeth

ffrwythlondeb). I gael manylion pellach cysylltwch â: Job Centre Plus 0845 604 3719 www.direct.gov.uk/en/MoneyTaxAndBenefits/BenefitsTaxCreditsAndOther Support/Bereaved/DG_10018848

Credyd Treth Gwaith

Taliad yw hwn i ychwanegu at enillion pobl sy'n gweithio am gyflogau isel. Mae'n cynnwys cefnogi costau gofal plant a chaiff ei dalu'n ogystal ag unrhyw Gredyd Treth Plant sydd gennych hawl iddo. Caiff cymorth ychwanegol tuag at gostau gofal plant cymeradwy cofrestredig ei alw'n 'Elfen Gofal Plant' o fewn Credyd Treth Gwaith.

Ni allwch gael hwn os nad ydych:

- Yn gweithio o leiaf 16 awr yr wythnos, neu,
- Os ydych yn rhan o gwpl, rhaid eich bod chi a'ch partner yn gweithio o leiaf 16 awr yr un oni bai fod un ohonoch yn methu gweithio oherwydd anallu. (O fis Ebrill 2012, bydd angen i un rhiant weithio o leiaf 24 awr.)

Os oes gennych hawl i'r elfen gofal plant Credyd Treth Gwaith, bydd yn cael ei dalu'n uniongyrchol i bwy bynnag sy'n bennaf gyfrifol am ofalu am y plant yn y teulu, ochr yn ochr ag unrhyw daliadau am Gredyd Treth Plant.

Gall Credyd Treth Gwaith dalu am hyd at 70% o gostau gofal plant cymeradwy cofrestredig.

Rhaid i bob gofal plant i blant o dan 8 fod wedi cael ei gofrestru gydag AGGCC (Arolygaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru). Gall rhieni hawlio hefyd am ofal plant cymeradwy yn eu cartref eu hunain e.e. 'Nani' fel nani. Mae manylion darparwyr gofal plant cofrestredig ar gael oddi wrth y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Wrecsam, Ffôn: 01978 292094.

Mae gofal plant i rai dros 8 oed yn ystod oriau oddi allan i'r ysgol ac a ddarperir ar adeiladau'r ysgol neu adeiladau awdurdod lleol arall yn ofal plant 'cymeradwy' at bwrpasau hawlio'r elfen ofal plant o Gredyd Treth Gwaith. Yn gynwysedig hefyd y mae gofal plant a ddarperir gan ofalwyr maeth sy'n gymeradwy gan awdurdod lleol neu asiant faethu (yn disgwyl gofal a ddarperir gan y gofalwr maethu i'w blentyn ef/hi).

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â: Llinell Gymorth Credydau Treth: Ffôn: 0845 300 3900 neu ewch i: www.hmrc.gov.uk/taxcredits

Cyfnodau Di-dreth Newydd Credyd Treth Gwaith

Gall pobl sydd ar absenoldebau mamolaeth, tadolaeth neu fabwysiadu (am hyd at 9 mis) sy'n ateb amodau cymhwyso Credyd Treth Gwaith hawlio'r elfen gofal plant i gynorthwyo gyda chostau gofal plant cymwys ar gyfer eu baban neu blentyn newydd yn ogystal ag ar gyfer plant eraill yn y teulu.

Gall rhiant am y tro cyntaf hawlio Credyd Treth Gwaith gan gynnwys yr elfen gofal plant ar adeg geni neu fabwysiadu eu plentyn ond bod y rhiant wedi gweithio o leiaf 16 awr yr wythnos cyn dechrau'r absenoldeb mamolaeth, tadolaeth neu fabwysiadu.

Gall gweithwyr cyflogedig dderbyn hyd at £55 yr wythnos ar gyfer gofal plant, yn rhydd o dreth ac Yswiriant Gwladol, lle bydd y cyflogwyr naill ai'n contractio gyda gofalwr plant cymeradwy neu'n

rhoi talebau at ddiben talu gofalwr plant cymeradwy. Bydd y £55 cyntaf yr wythnos gyntaf o ofal plant dan gontract neu dalebau yn ddi-dreth a'r eithriad o Yswiriant Gwladol yn cyd-fynd â hyn.

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â: Llinell Gymorth Credydau Treth, Ffôn: *0845 300 3900* neu ewch i: www.hmrc.gov.uk/taxcredits

Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Wrecsam

Rydym yn darparu gwybodaeth, cefnogaeth a chyngor AM DDIM ar bob agwedd o ofal plant a gwasanaethau i blant a phobl ifanc ym Mwrdeistref Sirol Wrecsam. Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Wrecsam, Llyfrgell a Chanolfa Gelf Wrecsam, Ffordd Rhosddu, Wrecsam LL11 1AU. Ffôn: 01978 292 094, e-bost: fis@wrexham.gov.uk.

Swyddog Cefnogi Ariannu Gofal Plant

Os oes angen unrhyw gymorth neu gyngor arnoch ynglŷn â materion ariannu gofal plant cysylltwch â Lynne Mort, Swyddog Cefnogi Ariannu Cymorth Plant ar 01978 298343 neu'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Ganolfan Wybodaeth am Blant ar 01978 292094 (e-bost: fis@wrexham.gov.uk). Gallwch hefyd gael gwybodaeth bellach ar www.wrexham.gov.uk/fis.

Prosiect Genesis Wales 2

Dyma Brosiect a ariennir gyda chyllid Ewropeaidd sy'n helpu rhieni di-waith i oresgyn rhai o'r anawsterau y maent yn eu hwynebu pan fyddant am ddysgu sgiliau newydd, cael hyfforddiant neu ddychwelyd i'r gwaith. Mae'r Prosiect yn canolbwyntio ar rieni unigol yn bennaf. Gall y Prosiect roi cyngor ac arweiniad am ddim, eich helpu i fagu hyder a gofal plant am ddim neu gymorthdaledig i'r rhai sy'n gymwys i'w dderbyn.

Am ragor o wybodaeth cysylltwch â Thim Genesis Wrecsam: Gwasanaeth Gwybodaeth I Deuluoedd Wrecsam *ar 01978 298341 / 292094 www.genesiswales.co.uk*

Agor Drysau

Gall Agor Drysau helpu rhieni sy'n ddi-waith neu ar incwm isel i gymryd camau tuag at well dyfodol. Gall Agor Drysau helpu rhieni i gael hyfforddiant drwy eu helpu i ddod o hyd i hyfforddiant a thalu amdano, gofal plant cymorthdaledig am fis, a chostau teithio am fis. Gall Agor Drysau hefyd helpu rhieni sydd â phlant gyda phroblemau iechyd tymor hir neu anableddau i ddod o hyd i ofal plant addas ac arbennig i'w galluogi i gael hyfforddiant neu ddod o hyd i waith.

Am ragor o wybodaeth ffoniwch 01978 298342/292094.

Cofiwch, gall y cyhoedd ddefnyddio'r Rhyngrwyd am ddim mewn llyfrgelloedd ledled ardal Wrecsam.